Pay and workload dispute – mini campaign check list

It is very important that we get the word out that we are running two formal industrial action ballots, one on pay and the other on workload. The ballots open on Monday 24th September 2018 and closes on Friday the 19th October 2018. Members will receive 2 ballot papers in the same envelope. We are encouraging a yes vote but more importantly we are encouraging them to return their ballot papers whatever they decide to vote.

1. Do you know what the 50% Theshold means?

In 2017 the Westminster Government introduced a 50% turnout threshold for any union which wants to take industrial action. Ballots have to achieve a 50% turnout of eligible members. With a majority voting in favour of strike action. Its therefore essential that members post their ballot papers, whatever their actual vote.

2. Do you know the significance of a 1% pay offer?

In July 2018, RPI was running at 3.2%. The School teacher's pay review body recommended that from September 2018 ALL pay and allowances for teachers and school leaders are increased by 3.5%. **ColegauCymru has offered staff in FE a derisory 1%. The hard won pay parity with school teachers is under attack and if we don't fight for it we will lose it!**

The Welsh Government needs the FE sector to deliver on its economic policies and therefore needs to ensure an appropriate level of funding for the sector. A big turnout AND a yes vote will provide the union negotiators with the bargaining power to hopefully persuade the College Principals to increase their pay offer and the Welsh Government to fund a decent pay increase for college staff.

3. Do you know what the issues are around workload?

CollegauCymru acknowledge that there has been around 12 per cent cut in teaching staff impacting on workload. Expenditure cuts have resulted in large reductions in the workforce. Remaining staff are carrying the burden of wider and different responsibilities impacting on their workloads. ColegauCymru agreed to negotiate on workload if the FE joint trade unions withdrew the dispute in January 2018. They have reneged on that agreement. They won't talk about it, unless **YOU** make them.

We need members to vote in this ballot to make ColegauCymru negotiate with us on the issues of workload and to cost changes to provide an evidence base for Welsh Government to consider the budget needed to address the workload and associated health issues within their own policy of the Well-being of Future Generations..

4. Do you know what the implications could be if we fail to achieve a 50% turnout and a YES vote?

If we fail to achieve a 50% turnout and a resounding yes vote, the college Principals will see this as a sign that staff are content with their pay and workload and the Union will have no capacity, without the support of members, to deal with these issues at a national level. **A big turnout and a yes vote could mean that we do not have to take strike action.**

Please forward on to members - knock on doors and ask colleagues to vote

Your union needs you!!

University and College Union
Undeb Prifysgol a Choleg Cymru

Anghydfod ynghylch cyflog a llwyth gwaith – rhestr wirio ymgyrch fach

Mae'n bwysig iawn ein bod yn lledaenu'r gair ein bod yn cynnal dwy bleidlais gweithredu diwydiannol ffurfiol, un dros gyflog a'r llall dros lwyth gwaith. Mae'r bleidlais yn agor ddydd Llun 24 Medi 2018 ac yn cau ddydd Gwener 19 Hydref 2018. Bydd yr aelodau yn cael 2 bapur pleidleisio yn yr un amlen. Rydym yn annog pleidlais 'ie', ond yn bwysicaf oll, rydym yn eu hannog i ddychwelyd eu papurau pleidleisio ni waeth sut y gwnaethant bleidleisio.

1. **Ydych chi'n gwybod beth yw ystyr y Trothwy 50%?**

Yn 2017, cyflwynodd Llywodraeth San Steffan drothwy bleidleisio o 50% ar gyfer unrhyw undeb sydd am gymryd camau gweithredu diwydiannol. Rhaid i 50% o aelodau cymwys bleidleisio yn y bleidlais; gyda'r mwyafrif yn pleidleisio dros weithredu diwydiannol. Felly, mae'n hanfodol bod yr aelodau yn dychwelyd eu papurau pleidleisio, ni waeth sut y gwnaethant bleidleisio.

2. **Ydych chi'n gwybod beth yw arwyddocâd cynnig cyflog o 1%?**

Ym mis Gorffennaf 2018, roedd y Mynegai Prisiau Manwerthu'n 3.2%. Mae corff adolygu cyflog athrawon ysgol wedi argymell y dylai POB cyflog a lwfans ar gyfer athrawon ac arweinwyr ysgol gynyddu 3.5% o fis Medi 2018. **Mae ColegauCymru wedi cynnig cynnydd dirmygus o 1% i staff ym maes Addysg Bellach. Mae'r cyflog cyfartal ag athrawon ysgol y gwnaethom frwydro'n galed drosto dan fygythiad ac os na wnawn frwydro drosto, byddwn yn ei golli!**

Mae angen y sector Addysg Bellach ar Lywodraeth Cymru er mwyn cyflwyno ei pholisïau ac felly, mae angen iddi sicrhau y rhoddir lefel briodol o gyllid i'r sector. Bydd nifer fawr o bobl yn pleidleisio A phleidlais ie yn rhoi pŵer bargeinio i drafodwyr yr undeb a, gobeithio, yn darbwyllo Penaethiaid Colegau i gynyddu eu cynnig cyflog ac yn darbwyllo Llywodraeth Cymru i ariannu codiad cyflog teilwng i staff colegau.

3. **Ydych chi'n gwybod beth yw'r problemau ynghylch llwyth gwaith?**

Mae ColegauCymru yn cydnabod y gwnaed toriad o tua 12% i staff addysgu a gafodd effaith ar lwyth gwaith. Mae toriadau gwariant wedi arwain at ostyngiadau mawr yn y gweithlu. Mae'r staff sydd ar ôl yn cario baich cyfrifoldebau ehangach a gwahanol sy'n effeithio ar eu llwythi gwaith. Ym mis Ionawr 2018, cytunodd ColegauCymru i drafod y llwyth gwaith pe bai'r cyd-undebau llafur Addysg Bellach yn rhoi'r gorau i'r anghydfod. Mae wedi torri'r cytundeb hwnnw. Ni wnânt siarad amdano, oni bai eich bod **CHI** yn rhoi pwysau arno.

Mae angen i'r aelodau bleidleisio yn y bleidlais hon er mwyn gorfodi ColegauCymru i drafod materion llwythi gwaith a newidiadau costau â ni er mwyn darparu sail dystiolaeth i Lywodraeth Cymru ystyried y gyllideb sydd ei hangen i fynd i'r afael â'r llwyth gwaith a materion iechyd cysylltiedig o fewn ei pholisi Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ei hun.

4. **Ydych chi'n gwybod beth allai'r goblygiadau fod pe byddem yn methu sicrhau bod 50% o bobl yn pleidleisio a'n bod yn cael pleidlais IE?**

Pe byddem yn methu sicrhau bod 50% o bobl yn pleidleisio a sicrhau pleidlais ie sylweddol, bydd Penaethiaid colegau yn gweld hyn fel arwydd bod y staff yn hapus gyda'u cyflog a'u llwyth gwaith ac ni all yr Undeb, heb gymorth aelodau, ddelio â'r materion hyn ar lefel genedlaethol. **Gallai nifer fawr bobl yn pleidleisio a phleidlais ie olygu na fydd angen i ni gymryd camau i streicio.**

Anfonwch hyn ymlaen at yr aelodau – cnociwch ar ddrysau a gofynnwch i gydweithwyr bleidleisio

Mae ar eich undeb eich angen CHI!!